



BANK OF ENGLAND

Fforwm Agored 2015

Themau allweddol
a'r camau nesaf

Rhan marchnadoedd ariannol yn yr economi

Thema allweddol

Roedd cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd marchnadoedd ariannol ym mywyd pawb. Ond roedd hefyd diffyg ffydd yn y marchnadoedd a sefydliadau ariannol oherwydd camymddygiad a diffyg ffocws ymddangosiadol ar y cwsmer.

Camau nesaf

- Mae'r diffyg ffydd yn atgyfnerthu pwysigrwydd ateboldeb unigolion, sydd yn bwynt ffocws yr Arolwg Marchnadoedd Teg ac Effeithiol a fydd yn darparu adroddiad gweithredu erbyn Mehefin 2016 ac hefyd Arolwg yr Uwch Reolwyr a fydd yn cael ei weithredu yn 2016 Q1.

Thema allweddol

Roedd awch i glywed a gwybod mwy am y rhan mae marchnadoedd ariannol yn ei chwarae i gefnogi cymdeithas ehangach, ond er mwyn dealltwriaeth ehangach roedd angen newid sylweddol o fewn cyfathrebu gyda'r cyhoedd gan gynnwys llai o ddefnydd o lythrenwau ac iaith symlach a gwranddo ar y rheini tu allan i'r ddinas.

Camau nesaf

- Bydd Bank of England yn edrych ar adeiladu ar beth a ddysgodd yn y Fforwm Agored i sicrhau ein bod yn siarad gyda a gwranddo ar grŵp ehangach o randdeiliaid ledled cymdeithas pan rydym yn dylunio a gweithredu polisi. Golyga hyn symud ein cyfathrebiaeth tuag at y cyfryngau digidol a chymdeithasol, a gwneud mwy o ddefnydd o fforymau rhanbarthol er mwyn egluro pa weithredoedd a gaiff eu gweithredu a pham.

Effaith rheolaeth ar hydwythedd y farchnad ariannol

Thema allweddol

Ymdrech barhaol oedd y diwygiad rheolaeth a fyddai'n rhaid iddo addasu'n barhaol yng ngolau arloesi yn y sector ariannol.

Camau nesaf

- Rydym angen sicrhau bod unrhyw addasiadau yn y dyfodol wedi eu seilio ar wella cyfathrebiaeth gyda'r sector ariannol ac ystod ehangach o randdeiliaid ledled cymdeithas. Bydd Bank of England yn edrych ar adeiladu ar beth a ddysgwyd yn y Fforwm Agored i sicrhau ein bod yn siarad gyda a gwranddo ar grŵp ehangach ledled cymdeithas pan rydym yn dylunio ac yn gweithredu polisi. Mae hyn yn cynnwys symud ein cyfathrebiaeth tuag at y cyfryngau digidol a chymdeithasol, a gwneud mwy o ddefnydd o fforymau rhanbarthol i egluro pa weithredoedd a gaiff eu gweithredu a pham.

Thema allweddol

Gyda'r rhan fwyaf o ddiwygiadau rheolaeth gochelgar wedi eu cadarnhau, mae'n rhaid i'r ffocws symud i sicrhau bod y rheolau newydd yn cael eu cyfathrebu er mwyn helpu cwmnïau i addasu i'w gofynion newydd. Ond roedd ansicrwydd ynglŷn ag os oedd rheolaeth yn y lle cywir ac os oedd y pecyn diwygio rheolaeth wedi ei osod yn gywir.

Camau nesaf

- Rhaid i ni sicrhau bod y fframwaith rheolaeth yn gydlynol. Dechreuwyd gwaith ar hyn yn barod, er enghraifft mae Gweithlu Cydlynol a Chalibrad Basel yn adolygu cydlyniaeth y fframwaith rheolaeth Basel III.

Thema allweddol

Roedd barn fod y fframwaith rheolaeth gyfredol wedi creu llawer o ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys lleihau hylifedd y farchnad a thrafodwyd hyn hefyd mewn sesiwn ddilynol.

Camau nesaf

- Rhaid i ni adolygu os yw'r diwygiadau rheolaeth yn achosi canlyniadau anfwriadol. Mae Pwyllgor Polisiariannol Bank of England wedi ymroi i asesu effeithiau cronus y rheolaeth ariannol ac i ystyried os oes ganddynt effeithiau anfwriadol ac annymunol fel cyfangorff.
- Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi lawnsio adolygiad o effaith gronus y rheolaeth ariannol ac wedi galw am dystiolaeth o ganlyniadau anfwriadol o fewn rheolaeth.
- Ac mae'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf sy'n astudio effeithiau diwygiadau rheolaeth yn eu cyfanrwydd ac wedi amlygu canlyniadau anfwriadol.

Adeiladu Trwydded Gymdeithasol ar gyfer Marchnadoedd Ariannol

Thema allweddol

Teimlwyd bod adeiladu trwydded gymdeithasol yn ymarfer da ar gyfer newidiadau diwylliannol a moesol y mae sefydliadau ariannol eu hangen. Dylai sefydliadau ariannol greu eu cod moesol eu hunain er mwyn annog unigolion i fod eisiau ymddwyn yn foesol.

Camau nesaf

- Bydd y Bwrdd Incwm Gosodedig, Arian, Nwyddau Safonau Masnachol a'r Bwrdd Safonau Bancio yn ffurfio codau ymddygiad gyda'r nod o ysgogi gwell ymddygiad o fewn y sector ariannol. Mae'n bwysig bod y sefydliadau ac unigolion yn mabwysiadu eu codau ac yn eu hystyried yn rhan o ddiwylliant eu gweithle a bod dealltwriaeth gyhoeddus o hyn.

Thema allweddol

Roedd rhaid i sefydliadau ariannol gysylltu'n well gyda'r rheini o fewn cymdeithas ehangach a allai elwa neu ddiodef dan law eu gweithredoedd.

Camau nesaf

- Rhaid i ni feddwl yn bellach am hyn a byddem yn croesawu awgrymiadau.

Thema allweddol

Yn gytbwys roedd diffyg cysylltiad rhwng y cyhoedd a'r rhai sy'n gweithio o fewn y maes ariannol ar y rhan y dylai marchnadoedd ariannol ei chwarae o fewn gwasanaethu gofynion y gymdeithas ehangach. Roedd diffyg ffydd gan y cyhoedd mewn marchnadoedd ariannol sydd o bosib wedi ei gysylltu a diffyg dealltwriaeth y cyhoedd ac yr angen i fod yn fwy agored ac eglur.

Camau nesaf

- Mae gan Bank of England flaenoriaeth strategaethol er mwyn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd ac fel rhan o hyn, byddwn yn defnyddio ystod o sianelau cyfathrebu ar y rhan mae marchnadoedd ariannol yn chwarae o fewn cefnogi cymdeithas ehangach trwy ganllawiau rhyngweithiol, ffynhonnellau addysgiadol, ac ymgyrchoedd cyfathrebu ehangach.

Gwella Effeithliolrwydd arian marchnad i wasanaethu'r economi

Thema allweddol

Mae busnesau bychain a chanolig yn wynebu bwlch ariannol ac angen ffurfiau newydd ac arloesol o ariannu os ydynt eisiau tyfu a ffynnu yn yr economi.

Camau nesaf

- Mae ein menter gyda'r Trysorlys wedi ceisio gwella mynediad i ddata credyd er mwyn cefnogi darpariaeth y credydau i fusnesau bychain a chanolig.
- Bydd archwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnad i fancio masnachol busnesau bychain a chanolig yn dweud rhagor wrthym am rwystrau'r farchnad o fewn darpariaeth benthycia i gwmnïau bychain a chanolig. Mae Cynllun Benthycia Bank of England hefyd yn cynnwys cymhelliadau i roi hwb i fenthycia ar gyfer busnesau bychain a chanolig.

Thema allweddol

Roedd angen adolygu rheolaeth a oedd yn cyfyngu gallu buddsoddwyr gwerthiant i ddarparu cyllid ar gyfer busnesau bychain a chanolig.

Camau nesaf

- Bydd Bank of England yn cyhoeddi trafodaeth bapur ym Mawrth 2016 ar anghenion cwmnïau i godi arian ar adegau gwahanol o'u datblygiad a datrysiadau potential.
- Dylai cynllun y Comisiwn Ewropeaidd am Undeb Marchnadoedd Cyfalaf ddatgloi gwybodaeth am gyllid ar sawl ffurf i fusnesau bychain a chanolig.
- Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol a'r Bwrdd Rheolaeth Gochelgar yn edrych i mewn i ragolwg ar gyfer sector fancio'r DU. Bydd adroddiad yn cael ei ddarparu erbyn Q2 y flwyddyn nesaf a fydd, ymysg pethau eraill, yn gwerthuso tirwedd bancio masnachol, gan gynnwys gwerthusiad darpariaeth gwasanaethau bancio i

Sut gall arloesi ariannol a thechnoleg gefnogi'r economi?

Thema allweddol

Roedd angen adeiladu gwell dealltwriaeth o'r maes newydd hwn sydd yn datblygu'n gyflym.

Camau nesaf

- Mae'r Trysorlys a'u Hawdurdod Ymddygiad Ariannol wedi lawnsio eu Harolwg Marchnad Cymorth Ariannol a fydd, ymysg pethau eraill, yn archwilio cyfleon a heriau wedi eu cyflwyno gan dechnolegau newydd a chyfoddedig o fewn gwella mynediad i gymorth ariannol.
- Mae'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol, y Fforwm Economaidd Rhyngwladol ac eraill yn gweithio i ddeall ac ymateb i gyfleon sy'n codi o dechnoleg ariannu.
- Dylai agenda ymchwil Bank of England ar arian a gyhoeddir gan y banciau canolog ein helpu i ddarganfod ac ymateb i newidiadau deinamig y maes hwn.

Thema allweddol

Gall modelau wedi eu hysgogi gan ddata mawr a phensaerniaeth agored roi gwerthusiad llawer mwy cywir o'r risg na'r modelau traddodiadol, gydag adborth bron yn syth (ac ariannu o bosib) i'r rheini sy'n ceisio amdano.

Camau nesaf

- Mae Bank of England a'r Trysorlys wedi awgrymu menter data credyd cyfunol a allai ei wneud yn haws i fenthycwyr ddarganfod ymgeisiwyr o fusnesau bychain a chanolig addas. Mae Bank of England hefyd yn un o'r storfeydd mwyaf felly byddem yn edrych ar chwarae rhan o fewn hwyluso datblygiad y modelau risg credyd yn y maes hwn.

Thema allweddol

Mae marchnadoedd angen sefydlu bod ariannu cefnogol, amyneddgar, hir-dymor, ymroddedig a strategaethol fel bod busnesau cynladwy'n cael eu creu.

Camau nesaf

- Rydym angen meddwl mwy am hyn a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau, yn benodol ynglyn ag os oes angen datblygu fframwaith rheolaeth cyson ar gyfer ffurfiau cyfoddedig o arloesi.

Rhan hylifedd yn yr economi ehangach

Thema allweddol

Roedd rhaid gwella hylifedd marchnad o fewn adegau cyffredin ac o fewn adegau dan bwysau.

Camau nesaf

- Dylai Pwyllgor Basel ar Arolygu gofynion pwysau banciau sicrhau bod deliwy'r yn dod yn ffynhonell hylifedd mwy sefydlog.

Thema allweddol

Mae rheolwyr asedau wedi tyfu'n gyflym o ran maint a graddfa a dylent ymgymeryd â phrofion pwysau a gallu cael eu datrys mewn modd trefnus.

Camau nesaf

- Gall rheolwyr asedau gael eu profi dan bwysau fel rhan o ymarfer profion pwysau'r Pwyllgor Polisi Ariannol, ac mae Bank of England, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol yn gweithio tuag at sicrhau y gallai rheolwyr asedau gael eu datrys mewn modd trefnus.

Thema allweddol

Dylai rheolwyr symud eu ffocws o reolau manwl i gywiro strwythur y diwydiant drwy symleiddio'r sefydliadau ariannol a chreu diwylliant o gyfrifoldeb personol.

Camau nesaf

- Mae'r Bwrdd Incwm Gosodedig, Arian, Nwyddau Safonau Marchnad a'r Bwrdd Safonau Bancio wedi trefnu codau ymddygiad i wella safonau marchnad.
- Dylai cwblhad rheolau'r Awdurdod Rheolaeth Gochelgar ar ddiwygiad strwythur banciau arwain at strwythurau sefydliadol fwy syml.

Rhan y banciau canolog o fewn marchnadoedd ariannol

Thema allweddol

Roedd rhaid cael gwell dealltwriaeth o ran gweithredoedd y banciau canolog.

Camau nesaf

- Edrychwn ar adeiladu cyfathrebiaeth a dealltwriaeth trwy waith allanol cynyddol, gan gynnwys ein hymweliadau rhanbarthol. Gallai hyn gynnwys adeiladu agenda o amgylch themau penodol a sicrhau ein bod yn siarad gyda a gwranddo ar grwpiau ehangach o randdeiliaid nag yr ydym ar hyn o bryd.

Thema allweddol

Dylai banciau canolog fod yn egniol o fewn ceisio gwella strwythur marchnad ac effeithiolrwydd ymhle y maent yn cyfrannu at sefydlogrwydd ariannol.

Camau nesaf

- Mae Bank of England, y Trysorlys a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn ystyried y mater hwn fel rhan o weithredoedd dilynol i'r Arolwg Marchnadoedd Teg ac Effeithiol.

Thema allweddol

Roedd rhaid i gyfleusterau hylifedd y banciau canolog fod yn gyfochrog â strwythur y farchnad.

Camau nesaf

- Mae Bank of England wedi lledu ei fynediad i gyfleusterau'r banciau canolog i dderbyn broceriaid a chyfatebwyr canolog ac wedi ehangu ei set o warrant cymwys. Rydym yn cyhoeddi arolwg blynyddol o gyfleusterau hylifedd.

Thema allweddol

Roedd rhaid i fanciau canolog fod yn briodol glir am eu meini prawf ar gyfer ymyrd er mwyn cefnogi hylifedd y farchnad.

Camau nesaf

- Mae Llyfr Coch Bank of England yn egluro sut y byddai'r Banc yn gweithredu fel gwneuthuriwr marchnad y pen diwethaf ac mewn amgylchiadau eithriadol. Rydym yn cydnabod bod angen darparu arweiniad pellach am sut rydym yn i weithredu yn y maes hwn, yn enwedig yng ngolau pwysigrwydd cynyddol ariannu wedi ei seilio ar y farchnad, a byddwn yn edrych ar wneud hyn yn y flwyddyn nesaf.

Ble nesaf i farchnadoedd ariannol?

Thema allweddol

Roedd yn glir bod diffyg dealltwriaeth ymysg y cyhoedd ynglŷn â beth yw marchnadoedd ariannol a'r rhan y maent yn chwarae mewn cefnogi economi ehangach. Mae'r diffyg dealltwriaeth hwn yn arwain at ddiffyg cyswllt a diffyg ffydd.

Thema allweddol

Roedd datgysylltiad rhwng y rheini yn y sector ariannol gyda barn gadarnhaol am farchnadoedd ariannol a'r cyhoedd sydd ddim yn credu bod y marchnadoedd ariannol yn gwasanaethu cymdeithas.

Camau nesaf

- Mae gan Fanc Lloegr ac eraill gyfrifoldeb i egluro'n glir i'r cyhoedd beth maent yn ei wneud i wneud i farchnadoedd ariannol wasanaethu anghenion cymdeithas fel bod pawb yn gallu bod yn rhan o'r ddadl. Roedd un syniad yn awgrymu cefnogi cael Athro Dealltwriaeth Cyhoeddus newydd i'r sector ariannol.
- Rydym angen siarad gyda a gwranddo ar y cyhoedd fel ein bod yn deall eu hanghenion a heriau fel cwsmeriaid a defnyddiwyr. Trwy hyn gallwn adeiladu gwir farchnadoedd sydd yn gwasanaethu anghenion cymdeithas.